Ysgol Gyfun Gŵyr

Gorau byw cyd-fyw

26 Medi 2020

Annwyl Riant / Gofalydd

**Diolch**

Diolch yn fawr iawn i rieni a gofalwyr yr ysgol am bob cefnogaeth dros y mis diwethaf. Bu'n gyfnod gwahanol iawn, ond rhoddwyd ffocws ar addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth fel blaenoriaeth. Mae'r disgyblion wedi ymateb yn bositif iawn ers dod yn ôl ac edrychwn ymlaen yn fawr iawn i fwynhau bod yn eu cwmni dros yr wythnosau nesaf.

**Cyfnod Clo Abertawe**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod cyfnod cloi lleol yn Abertawe o 6pm ar Ddydd Sul 27 Medi. Golyga hyn nad oes hawl i neb o drigolion Abertawe adael ffiniau'r Sir heb reswm digonol. Yn ogystal, does dim hawl gan neb sy'n byw y tu allan i Ddinas a Sir Abertawe deithio i'r ddinas yn ystod y cyfnod nesaf hwn. Rhagwelir mai mesur dros dro yw hyn i darfu ar ledaeniad Covid-19 yn y gymuned. Ni fydd y cyfnod clo hwn yn effeithio ar rediad yr Ysgol - byddwn ar agor yn ôl yr arfer.

**Presenoldeb**

Dros y tair wythnos a hanner cyntaf, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yr Ysgol dipyn yn is nag arfer wrth i ddisgyblion a rhieni weithredu'n ofalus iawn pan fo anwydau yn taro. Hoffwn ddiolch i chi am eich cydweithrediad yn hyn o beth, ac i annog eich plant i ddod i'r Ysgol pan yn holliach.

**Gwersi Ymarfer Corff Blwyddyn 7 – 9**

Roedd yn **fwriad** gan yr Ysgol i **adolygu ein cyfyngiadau** ar wersi Ymarfer Corff i Flwyddyn 7 - 9 ar ôl y mis cyntaf. Oherwydd i ni sefydlu parthau ar wahân i'r blynyddoedd hyn, does dim modd cael mynediad i'r Gampfa. Ar ben hyn, mae'r broses o newid gwisg ar gyfer y gwersi hyn yn anodd iawn mewn ystafelloedd newid cyfyng. Yng ngoleuni'r datblygiadau diweddaraf o ran Covid-19, **byddwn yn parhau a'r gyfundrefn Ymarfer Corff bresennol** tan o leiaf Hanner Tymor. Mae nifer o'r gwersi Ymarfer Corff hyn gydag ymarfer corff ysgafn

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion
Schools Curriculum Award
HEARTBEAT AWARD GWOBR CURIAD CALON
The Dyslexia Friendly School Standards
NPFA SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

wedi eu cynnal yn yr awyr agored gan nifer o'r staff dros y pythefnos diwethaf - cyfle am awyr iach yn fwy nag ymestyn y cyhyrau.

**Cinio**

Mae'r Ysgol yn y broses o weithredu Ap fydd yn galluogi disgyblion i archebu bwyd o'r Ffreutur ar eu ffonau symudol. Mae'n rhaid i ni weithredu yn y ffordd hon i osgoi'r defnydd o arian parod ar y safle. Rydym wedi cytuno ar y gyfundrefn y byddwn yn ei mabwysiadu, a bwriedir defnyddio Squid fel y dull talu ar gyfer rhieni. Gobeithiwn ddechrau defnyddio'r Ap cyn bo hir. Yn y cyfamser, gofynnir i chi ddarparu bwyd a diod i'ch plant yn feunyddiol - diolch am weithredu amynedd ac am bob cydweithrediad yn hyn o beth.

**Gwaith Adeiladu**

Dechreuodd cwmni South Wales Sports Ltd eu gwaith o osod ardaloedd y MUGA, 2G, a 3G ar y prif gae Ddydd Llun diwethaf. Mae fframwaith dur bloc y ffreutur newydd yn cael ei osod at ei gilydd yn ystod y dyddiau nesaf hefyd. Dwy garreg filltir arall yn y gwaith o drawsffurfio safle'r Ysgol. Mae cwmni adeiladu Kier yn parhau i gydweithio'n ofalus gyda'r Ysgol a'r Awdurdod Lleol er mwyn gwireddu ein gweledigaeth. Dyma fideo o'r gwaith adeiladu hyd yn hyn a gymerwyd Ddydd Llun diwethaf:
https://wetransfer.com/downloads/7b764dbda886103ae1e01b9c7f4f2ee220200921203035/f73a791b687301d7d66b217e7a1524492020092120310\1/cff03f

**Rhoi Caniatâd**

Diolch yn fawr iawn i'r nifer fawr iawn ohonoch sydd wedi ymateb i'r cais am ganiatâd i'r Ysgol dynnu lluniau yn cynnwys eich plant, cytundeb defnydd o TGCh yn ysgol, a pholisi ffrydio gwersi dros y we ar Microsoft Teams.

Mae rhai o'n rhieni wedi mynegi consyrn oherwydd i ni ofyn i'w plant beidio â derbyn gwersi wedi eu ffrydio ar Microsoft Teams yn eu stafelloedd gwely. Roedd y cyfeiriad hwn at ddefnyddio (neu beidio â defnyddio) ystafell wely plentyn yn asgwrn y gynnen i'r plant sy'n defnyddio eu hystafell wely fel man gwaith. Cafodd y cymal ei gynnwys ar sail diogelu diogelwch disgyblion ein Hysgol, ac mae'n egwyddor gadarn. O ganlyniad, efallai y byddwn yn adolygu ein disgwyliadau yn hyn o beth.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

**Newid Dyddiadau HMS**
Bu newid pellach ar drefn ein dyddiau HMS am eleni. Sylwch fod diwrnodau HMS 21 Rhagfyr a 22 Rhagfyr 2020 wedi eu hychwanegu tra bo 4 Ionawr 2021 wedi ei ddileu.

| **Dyddiau HMS 2020-21** |
| --- |
| HMS 1 Dydd Gwener 23 Hydref 2020 |
| **HMS 2 Dydd Llun 21 Rhagfyr 2020** |
| **HMS 3 Dydd Mawrth 22 Rhagfyr 2020** |
| HMS 4 Dydd Llun 12 Chwefror 2021 |
| HMS 5 Dydd Gwener 8 Gorffennaf 2021 |
| HMS 6 Dyddiad i'w gadarnhau |

**Mygydau**
**Mae disgwyl** i ddisgyblion Ysgol Gyfun Gŵyr ddod â gorchudd wyneb personol gyda nhw bob dydd. **Mae disgwyl** i ddisgyblion wisgo gorchudd wyneb ar y bws i'r Ysgol ac ar y ffordd gartref. **Mae disgwyl** i ddisgyblion wisgo gorchudd wyneb ar safle'r Ysgol mewn ardaloedd poblog uchel, wrth **deithio ar hyd y coridorau, mynd i fyny grisiau mewnol, ymweld â'r toiledau, neu wrth ymgasglu mewn gofod cyfyngedig o dan do**, oni bai'r bod rheswm meddygol yn eu harbed rhag gwneud.
Os yw eich plentyn yn defnyddio gorchudd aml-ddefnydd, disgwylir iddynt fod yn lan pob dydd ac yn addas i'w defnyddio mewn ysgol.

**Does dim disgwyl** i ddisgyblion i wisgo gorchudd wyneb ar y **buarth**, neu wrth **fwyta eu brechdanau**.

Does **dim angen** i ddisgyblion wisgo mygydau yn yr **ystafell ddosbarth.**

**Gwobr Dug Caeredin**
Mae clwb GDC yn mynd i barhau yn ystod amser cofrestru a chinio ar gyfer plant hŷn yr Ysgol i sicrhau bod y plant yn cwblhau 3 rhan (Sgil/Gwirfoddoli ac Adloniant Corfforol) o'r cymhwyster.
Bydd modd ennill cymhwyster ' Tystysgrif o Gymhelliant' ar gyfer y 3 rhan yma.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
The Dyslexia Friendly School Standards
SportsMarc
Investors in People | Buddsoddwyr mewn Pobl
We Are A … Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol… Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Mae'r Sir yn gwrthod caniatáu i ni fynd ar unrhyw alldaith ar hyn o bryd; y gobaith yw rhedeg y teithiau yn dilyn yr arholiadau yn yr haf.

**Cefnogi AP COVID-19 y GIG**

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth DU wedi lansio ap COVID-19 y GIG. Mae ap COVID-19 y GIG yn rhan bwysig o'r rhaglen Profi Olrhain Diogelu i reoli lledaeniad COVID-19. Dyma fwy o wybodaeth: https://wales.assetbank-server.com/assetbank-wales/images/assetbox/6ee2935c-f2c3-42ee-9d38-ad8b3b24d1f1/assetbox.html

**Yn gywir**

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion
Schools Curriculum Award
HEARTBEAT AWARD GWOBR CURIAD CALON
The Dyslexia Friendly School Standards
NPFA SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr

Gorau byw cyd-fyw

26 September 2020

Dear Parent / Carer

**Thank you**

Many thanks to the parents and carers of the school for all their support over the last month. It has been a difficult time, but we have focussed on teaching and learning in the classroom as a priority. The pupils have responded very positively since coming back and we very much look forward to enjoying being with them over the coming weeks.

**Swansea Local Lockdown**

The Welsh Government has announced a local lock-up in Swansea from 6pm on Sunday 27 September. This means that no Swansea resident can leave the County's boundaries without good reason. In addition, no one living outside the City and County of Swansea is allowed to travel into the city during this next period. It is envisaged that this is a temporary measure to curb the spread of Covid-19 in the community. This lockdown period will not affect the running of the School - we will be open as usual.

**Attendance**

Over the first three and a half weeks, the School's pupil attendance rates are much lower than usual as pupils and parents have acted cautiously when their children have been indisposed with colds and the like. I would like to thank you for your co-operation in this regard, and to encourage your children to come to School when well.

**PE Lessons Years 7 - 9**

The School intended to review our restrictions on PE lessons for Years 7 - 9 after the first month, at the end of September. Because we have set up separate zones for these years, it has not been possible to access the Sports Hall since returning in September. Furthermore, the process of change of clothing for these lessons is very difficult in cramped changing rooms. In light of the latest developments in Covid-19, we will continue the current PE regime until at least Half Term. Many of these PE lessons with light exercise have been conducted outdoors by a number of staff over the past two weeks - an opportunity for fresh air more than gaining physical fitness.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
The Dyslexia Friendly School Standards
NPFA SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

**Lunch**
The School is in the process of implementing an App which will enable pupils to order food from the Canteen on their mobile phones. We must act in this way to avoid the use of cash on site. We have agreed on the system which we will adopt, and intend to use Squid as the payment platform for parents. We hope to start using the App soon. In the meantime, please continue to provide your children with food and drink on a daily basis - thank you for your patience and co-operation in this.

**Building Work**
South Wales Sports Ltd started its installation of the MUGA, 2G, and 3G areas on the main pitch last Monday. The new canteen block steel framework is also being installed over the coming days. Two more milestones in the transformation of the School site. Kier construction company continues to work closely with the School and the Local Authority to realise our vision for the site,. Here's a video of the construction so far taken last Monday: https://wetransfer.com/downloads/7b764dbda886103ae1e01b9c7f4f2ee220200921203035/f73a791b687301d7d66b217e7a15244920200921203101/cff03f

**Consent**
Thank you very much to the very many of you who have responded to the request for permission on Microsoft Forms for the School to take photos which include your children, an agreement on the use of ICT in school, and considering the School's web-streaming policy on Microsoft Teams.

Some of our parents have expressed concern because we asked their children not to receive streamed lessons on Microsoft Teams in their bedrooms. This reference to using (or not using) a child's bedroom was a source of contention for the children who use their bedroom as a place of work. The clause was included on the basis of protecting the safety of our School pupils, and is a sound principle. However, we may review our expectations in this regard.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

**Change in INSET Days**
There has been a further change in the organisation of our INSET days this year. Note that the INSET days of 21 December and 22 December 2020 have been added while 4 January 2021 has been removed.

**INSET Days 2020-21**
INSET 1 Friday 23 October 2020
**INSET 2 Monday 21 December 2020**
**INSET 3 Tuesday 22 December 2020**
INSET 4 Monday 12 February 2021
INSET 5 Friday 8th July 2021
INSET 6 Date to be confirmed

**Masks**
Pupils at Ysgol Gyfun Gwyr are expected to bring a personal face covering with them to school every day. Pupils are expected to wear masks on the bus to School and on the way home. Pupils are expected to wear face coverings on the School site in high populated areas, when travelling along corridors, in stairwells, visiting toilets, or when gathering in a limited indoor space, unless a medical reason prevents them from doing so.
If your child uses reusable masks, they are expected to be washed every day and suitable for use in school.

Pupils are not expected to wear a face covering outside, or when eating their food.

Pupils do not need to wear masks in the classroom.

**Duke of Edinburgh's Award**
The DEA club is set to continue during registration and lunch times for the School's older children to ensure that the children complete 3 parts (Skill / Volunteering and Physical Entertainment) of the qualification.
It is possible to gain a 'Certificate of Motivation' qualification for these 3 parts.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
The Dyslexia Friendly School Standards
NPFA SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr

Gorau byw cyd-fyw

The County refuses to allow us to go on any expeditions at this time; it is hoped to run these following the exams in the summer.

**Supporting the NHS COVID-19 APP**

Welsh Government and UK Government have launched the NHS COVID-19 app across England and Wales. The NHS COVID-19 app is an important part of the Test, Trace, Protect programme to control the spread of Covid-19. Here is furhter information: https://wales.assetbank-server.com/assetbank-wales/images/assetbox/6ee2935c-f2c3-42ee-9d38-ad8b3b24d1f1/assetbox.html

Yours faithfully

Head

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion
Schools Curriculum Award
HEARTBEAT AWARD GWOBR CURIAD CALON
The Dyslexia Friendly School Standards
NPFA SportsMarc
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg